



Sir Gaerfyrddin

Sylwadau (cyhoeddwyd, cyflawn) a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol

DBCC-3 Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall

Mae ward Penygroes dros 20% uwchlaw'r targed. Mae ffordd newydd wedi'i hadeiladu drwy'r ward a byddwn yn awgrymu trosglwyddo'r adeiladau hynny ar Ffordd Penygroes, Gorslas i ward Gorslas.

Maent yn cynnwys Parc Grovehill a'r Cilgant. Mae trigolion yma â Gorslas fel eu cyfeiriad post ac yn aml maent yn synnu o glywed eu bod yn ward Penygroes.

Mae Ffordd y Llew Du mewn 3 ward ar hyn o bryd. Y pen uchaf yng Ngorslas, y rhan ganol ym Mhenygroes a'r pen isaf yn Saron. Byddwn yn awgrymu ei uno yn Saron neu Gorslas.

DBCC-12 Ar ran awdurdod lleol

Ar ôl adolygu ffiniau'r Cyngor Tref a Chymuned sy'n dod o fewn wardiau'r prif gyngor, byddai'r Swyddog Canlyniadau yn cyflwyno'r sylwadau canlynol yn seiliedig yn unig ar hwylustod trefniadau etholiadol at ddibenion y Sir a'r Tref a'r Gymuned:

1a) Hendy a Thycroes

Etholaeth: 2602 a 2242 = 4844

Byddai'r ward gyfun yn dod â'r cyfartaledd i 2422, ac rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, byddent yn eistedd yn well gan fod Hendy a Thycroes yn wardiau Cyngor Cymuned Llanedi, felly llai o effaith ar y trefniadau etholiadol ar gyfer y Cynghorau Cymuned.

1b) Hendy a Llangennech (Dewis amgen)

Etholaeth: 2602 a 4096 = 6698

Byddai Hendy a Llangennech yn ddewis arall gyda chyfartaledd ward cyfun o 2232.67, gyda 3 Chynghorydd yn cael eu cadw.

2) Llandeilo a Llanfihangel Aberbythych

Etholaeth: 2418 a 1544 = 3962.

Mae 2 gynghorydd ar gyfer y ward gyfunol newydd yn dod â'r cyfartaledd i 1981.

Nid oes angen unrhyw newidiadau i ffiniau'r Cyngor Tref a Chymuned.

3) Pen-y-groes a Llandybie

Etholaeth: 2446 a 3472 = 5918.

Mae cadw 3 chynghorydd ar gyfer y ward gyfunol newydd yn dod â'r cyfartaledd i 1972.67. Unwaith eto, ni fyddai'r Cyngor Tref a Chymuned yn cael eu heffeithio a'r cyfartaledd pe bai 3 chynghorydd yn cael eu cadw fyddai 1972.67.

4) Llwynhendy a Bynea

Etholaeth: 3166 a 3591 = 6757.

Mae cadw 4 chynghorydd ar gyfer y ward gyfunol newydd yn dod â'r cyfartaledd i 1689.25 sydd o fewn yr ystod dderbyniol ac mae'r ddwy ward o fewn Cyngor Gwledig Llanelli.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â [REDACTED] neu fi.



Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

Cofion/Regards,

[REDACTED]